# Week 4 - Cymorth Christnogol


## #addewidagobaith #hopeandpromise



**Gweddi i'w ddweud gyda'n gilydd**

Duw yr holl ddaear,
Gad i rhyfeddod a pwer natur ein hysbrydoli i weithio gyda gobaith i iachau dy greadigaeth.

Amen



Wythnos yma mae Mari McNeil, pennaeth Cymorth Christnogol wedi ysgrifennu llythyr atom:

Annwyl athrawon a rhieni,

Tra bod ein meddyliau ar y sefyllfa ynghylch Covid-19 ac wrth i ysgolion ar draws Cymru gau, hoffem rannu adnodd a gweithgaredd gyda chi i'w ddefnyddio adref dros yr wythnosau nesaf.

Rydym yn byw mewn byd sy'n gynyddol gydgysylltiedig. Mae ein cymuned leol yn un fyd-eang. Mae'r coronafeirws yn dangos fod ein dyfodol wedi clymu at ei gilydd yn dynnach nag erioed o'r blaen.
Mae'r argyfwng hinsawdd yn parhau i fod yn un o byncïau pwysicaf ein hoes a charem rannu myfyrdodau plant am y greadigaeth gydag arweinwyr y byd.

Gall eich disgyblion neu eich plant ddefnyddio eu sgiliau creadigol er mwyn creu ymateb creadigol i harddwch y byd naturiol a phwysigrwydd cyfiawnder hinsawdd?

Dros yr wythnosau nesaf, beth am ddefnyddio'r adnoddau sy'n rhan o'r pecyn Llythyrau dros y Greadigaeth er mwyn cyflwyno'ch disgyblion a'ch plant i'r thema, a'i gwahodd i greu darn o gerddoriaeth, darn ysgrifenedig, drama neu celf ar gyfiawnder hinsawdd.
Mae pecyn Llythyrau dros y Greadigaeth yn trafod sawl agwedd addysgol: gwyddoniaeth, daearyddiaeth, addysg grefyddol, llythrennedd a chelf.

Dowch o hyd i'r deunydd ar wefan Cymorth Cristnogol. Fe allwch lawr lwytho'r pecyn, neu ei archebu:

https://www.christianaid.org.uk/sites/default/files/2020-02/CAW20-Letters-for-Creation_Welsh.pdf [Cymraeg]

https://www.christianaid.org.uk/sites/default/files/2020-02/CAW20-Letters-for-Creation-resource-pack.pdf [Saesneg]

Os gwelwch yn dda, anfonwch eich gwaith i cymru@cymorth-cristnogol.org neu Cymorth Cristnogol, Churchgate Court, 3 Church Road, Caerdydd, CF14 2DX erbyn 22 Mai 2020 (noder bydd y dyddiad hwn yn debygol o newid).

Caiff detholiad o'r gwaith eu cynnwys mewn arddangosfa arbennig fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Gynhadledd Lambeth (cynulliad y Cyfundeb Anglicanaidd byd-eang) ac uwchgynhadledd COP26 y Cenhedloedd Unedig (bydd yn dod ag arweinwyr gwleidyddol ynghŷd ar gyfer gweithredu newid hinsawdd).

Carem glywed gennych os ydych yn bwriadu gwneud y gweithgaredd adref! Cysylltwch â ni a rhannwch eich straeon drwy eu hanfon at cymru@cymorth-cristnogol.org neu drwy Facebook @ChristianAidCymru neu Twitter @DileuTlodi
Diolch am eich cefnogaeth

**Sut gall hwn gysylltu â cwricwlwm yr ysgol?**

**Drwy ddatblygu'r sgiliau i fod yn unigolyn hyderus, iach, ystwyth sy'n dangos empathi dros eraill. Sgiliau holl bwysig i'ch meddwlgarwch emosiynol.**